# <u>Cofnodion</u> Cyngor Cymuned Pentir

**Cyfarfod Rhithiol o'r Is Bwyllgor Cyllid am 6.30pm nos Fercher 1af o Rhagfyr 2021**

1. Presennol Cyng L A James – Cadeirydd, Cyng D Jones-Morris a'r Cyng D W Jones Clerc E Jones

2. <u>Ymddiheuriadau</u> Cyng M Lynch; Cyng J Pierce a'r Cyng B. Jones

3. <u>Cod Ymddygiad</u>

   Atgoffa pawb o'r Cod ymddygiad ond prif bwrpas y cyfarfod oedd i dynnu drafft cynllun Busnes 22-23

4. <u>Derbyn cofnodion 27 o Hydref</u>
   Derbynwyd yn gofnodion cywir ar gynnig Cyng D Jones-Morris a'i Eilio gan Cyng D W Jones

5. Materion yn codi
   Nid oedd unrhyw fater yn codi

6. **Mantolen ariannol**
   Rhanwyd y fantolen ariannol oedd yn dangos £45,025.91c yn y cyfrif Cyfredol a £35,039.39 yn y cyfrif Cadw

7. **Archwilwyr allannol**
   Dim diweddariad nac ymholiad wedi dod

8. **Ceisiadau Nawdd** Cais am nawdd gan papur bro Goriad
   Argymell i'r Cyngor Llawn i gyfrannu £300.00 elen**i**

**Cais wedi ei dderbyn gan bwyllgor Canolfan Glasinfryn** i ystyried trwsio/adnewyddu drysau tan y ganolfan oedd yn agor yn weddol rwydd ond anodd eu cau ag ar gost pwy. Argymhellwyd cael prisiau adnewyddo ar gost Cyngor Pentir fel perchnogion yr eiddo.
Argymell drysau plastig ag edrych ar weddill y ganolfan o ran diogelwch a arbed ynni.
**Clerc i chwilio am brisiau**

9. **Taliadau** Argymhellwyd talu y cyfan oedd i law sef
   - D W Lewis Torri gwair Tachwedd £ 295.00
   - Neuadd Rhiwlas Storio offer £240.00
   - HMRC Tachwedd £ 150.00
   - Cyflog Tachwedd £ 599.84
   - Torri Gwair Llwybrau Pentir £970.00
   - Garddio ½ Blwyddyn £600.00

10. **Drafft Cynllun Busnes** Trafodwyd prosiectau fyddai yn syrthio o fewn/cyd fynd a canllawiau/ cynllun Cyngor Gwynedd a/neu Llywodraeth Cymru parthed Newid Hinsawdd, Llesiant, Amgylchedd Diogelwch Cymunedol a.y.y.b Cytunwyd y byddai Cadeirydd a'r Clerc yn tynnu allan ddrafft i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ddechrau Ionawr
**Argymell cadw Praesept a'r yr un lefel sef £55K am y flwyddyn ariannol nesaf**

LAJ 26/01/22